**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Mawrth 26ain 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones, Gwyn Williams, Ian W Griffith

Presennol: Elen H Edwards (Is-Gadeirydd), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Ann Vaughan, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

23.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

23.2 Croesawyd **Ms Cerys Thomas, Resources for Change** i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Esboniodd bod y cwmni wedi tendro am waith gan Gyngor Conwy i helpu grwpiau a'u hanelu at arian Sir Conwy – Capasiti Cymunedol. Roedd newydd fod mewn cyfarfod â swyddogion Cylch Meithrin Bro Cernyw. Credai y gallai Grŵp Toiledau Llangernyw dderbyn ffioedd allan o'r cynllun i ffurfio elusen a thalu costau cyfreithiwr os byddai'r grŵp angen cyngor annibynnol. Hefyd cyfeiriodd at Arian i Bawb gan fod y grŵp yn darparu ar gyfer pobl leol. Awgrymwyd prynu arwyddion i'r toiledau. Cyfeiriwyd at y Clwb Pêl-droed, y Sioe Arddio, safle wê i Sioe Gwytherin - rhag ofn y byddai'r grwpiau angen ei chymorth. Diolchwyd i Ms Thomas am ei chyflwyniad.

23.3 CYDYMDEIMLWYD ag Ian Griffith ar golli ei dad-yng-nghyfraith.

23.4 COFNODION – Cynigwyd bod y cofnodion yn gywir gan Emlyn Williams ac eiliwyd gan Ifor Edwards ac roedd pawb yn cydweld.

23.5 BAGIAU TYWOD – adroddodd Ifor Edwards iddo gael gair â Gwynfor Davies a'i fod yn medru prynu bagiau am 45c yr un a'r gist yn costio £60. PENDERFYNWYD i fwrw ymlaen i gael tua 50 o fagiau a'u llenwi â thywod.

23.6 COEDEN YWEN YM MYNWENT GWYTHERIN – nid oedd y Clerc wedi clywed gan Kevin Roberts ynglŷn a chlirio'r goeden.

23.7 POSTERI BAW CŴN – y Clerc i geisio cysylltu â PCSO Dan Owen eto.

23.8 PROTOCOL DRAFFT AR GYFER DATGANOLI GWASANAETHAU CONWY- daeth cyfieithiad gan Gonwy a gofynnwyd i bawb anfon unrhyw sylwadau at y Clerc.

23.9 BLODAU GAN Y CLWB GARDDIO – roedd y Clwb yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb o'r tybiau o ganlyniad i Gyngor Conwy roi'r gorau i'w llenwi ac yn awyddus i wybod tua faint o arian oedd ar gael o Gronfa Bro Cernyw. PENDERFYNWYD y gellid cyfrannu tua £250 tuag at y tybiau a'r basgedi i'r pentrefi ond bod y Clwb yn llenwi ffurflen gais y Gronfa.

23.10 MATERION FFYRDD – doedd y ffyrdd byth wedi eu sgubo a theimlwyd bod y Cyngor yn creu mwy o gostau iddynt eu hunain drwy beidio sgubo'n ddigon aml.

23.11  TOILEDAU LLANGERNYW – derbyniwyd llythyr gan Mr Steve Teale, Cyngor Conwy yn dweud ei fod wrthi'n paratoi'r papurau ar gyfer cyfarfod y Cabinet er mwyn trosglwyddo'r toiledau a'i fod wedi derbyn rhestr o gontractwyr lleol oedd a diddordeb mewn rhoi pris am y gwaith.  Byddai'n gadael i ni wybod am y datblygiadau.  Bu'r Cynghorydd Dilwyn Roberts yn siarad â swyddogion Eglwys San Digain ond ei fod am gael cyfarfod safle â'r Rheithor yn fuan. Cynigiodd Ifor Edwards fynd i'r cyfarfod hefyd.

23.12  MATER CYNLLUNIO – SP MANWEB PLC – Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru – ymgynghoriad statudol.  PENDERFYNWYD i beidio rhoi unrhyw sylwadau.

23.13  CYFRANIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD cyfrannu £30 at Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy.

23.14  CRONFA BRO CERNYW
23.14.1  Derbyniwyd cais gan Gylch Meithrin Bro Cernyw.  PENDERFYNWYD i gyfrannu £750 ond i ddatgan ein bod yn bryderus am y sefyllfa ac na allwn gyfrannu cymaint yn y tymor hir. Roeddem yn falch bod Cerys Thomas wedi cael cyfarfod â'r grŵp.
23.14.2  Derbyniwyd cais gan Bwrlwm Bro a PHENDERFYNWYD cyfrannu £500 tuag at y cynllun chwaraeon yn Llangernyw yn ystod yr haf.

23.15  CYFLOG CLERC – PENDERFYNWYD i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

23.16  CWRS GWEFAN – roedd Arfon Parry yn cynnig cwrs i'r clercod i ddefnyddio ei wefannau.  Atgoffodd Elen Edwards bod 75% o gyllid ar gael ar gyfer cyrsiau yng Nghonwy wledig.

23.17  PWYLLGOR ARDAL UN LLAIS – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan Tecwyn Evans lle cafwyd cyflwyniad gan Gwyneth Millington o Cyngor ar Bopeth.  Dechreuwyd y mudiad yn 1939 ym Mae Colwyn.  Ceir cyngor ar amryw bynciau gan gynnwys dyledion a budd-daliadau – 36 o wirfoddolwyr yn gweithio a defnyddir llawer o'r wê  erbyn hyn.

23.18  CYRSIAU UN LLAIS – anogaeth i'r aelodau fynychu cyrsiau Un Llais.

23.19  TAITH Y PERERINION – cyfarfu Emlyn Williams a'r Clerc â Suriyah Evans yng Ngwytherin.  Gobeithir rhoi gwybodaeth am y daith ar wefan Bro Cernyw ac yn y cylchlythyr. Bydd angen hanes lleol i'w roi ar y byrddau gwybodaeth ac awgrymwyd enwau Einir Williams a Lis Vaughan fel artistiaid lleol.

23.19 CANLLAW CYNLLUNIO – y Clerc i anfon yr wybodaeth eto a'r wybodaeth am Dai Fforddiadwy ar ebost i'r aelodau.  Datganodd Diane Roberts ddiddordeb yn y ddogfen Tai fforddiadwy.

23.20 MATERION ERAILL
23.20.1  Darn o wal wedi disgyn i'r afon ger Lion Inn, Gwytherin.
23.20.2  Arwydd Petryal dal heb ei drwsio – yn wynebu i'r ffordd anghywir.
23.20.3 Y lli wedi dod lawr allt Llwyn Saint a mynd â'r ffens a'r arwydd am Pentrefoelas i'r cae.
23.20.4 Twll ger Tyddyn Deicws – gallai car fynd iddo.
23.20.5 Derbyniad Radio Cymru yn anobeithiol yn yr ardal ond Classic FM i'w glywed yn glir. Angen cysylltu â Darren Millar AC a David Jones AS eto.

23.20.6 Coed ynn wedi gordyfu yng nghanol Gwytherin ac yn tyfu i'r gwifrau trydan neu ffôn, wedi cracio'r wal a phla arnynt.

BILIAU

| | |
|---|---|
| Arfon Parry (web hosting) | £23.76 |
| Dŵr Cymru | £17.09 |
| Canolfan Gwytherin | £30.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 10 o'r gloch.

*Cymeradwywyd y Cofnodion    Arwyddwyd.........................................   Dyddiad.......................*

Community Council Meeting was held on Wednesday 26th March 2014 at 7.30 pm at Gwytherin

Apologies : Gwydion Jones , Gwyn Williams , Ian W Griffith

Present : Elen H Edwards ( Vice Chair ) , Diane Roberts , Tecwyn Evans , Ifor Edwards , Emlyn Williams , Ann Vaughan , Cllr Dilwyn O Roberts & Clerk .

23.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the Agenda .

23.2 d Ms Cerys Thomas , Resources for Change was welcomed to the meeting by the Chairman . She explained that the company had tendered for the work by Conwy Council to help groups and lead them to money by Conwy County - Community Capacity . She had just been at a meeting with officials of Cylch Meithrin Bro Cernyw. She believed that the Llangernyw Toilets Group could receive fees from the plan to form a charity and pay legal costs if the group would need independent advice . Awards for All could also be contacted as the group provides for local people . Suggested buying signs for the toilets . Reference was made to the Clwb Peldroed Bro Cernyw , the Gardening Show , website for Gwytherin Show - in case the groups would need her help . The Chairman thanked Ms. Thomas for her presentation .

23.3 Condolences with Ian Griffith after losing his father - in-law .

23.4 MINUTES - It was proposed that the records were accurate by Emlyn Williams and seconded by Ifor Edwards and everyone agreed .

23.5 SAND BAGS - Ifor Edwards reported he spoke to Gwynfor Davies and he was able to buy bags for 45p each and the box would cost £ 60. RESOLVED to proceed to get about 50 bags and fill them with sand.

23.6 YEW TREE IN GWYTHERIN CEMETERY - The Clerk had not heard from Kevin Roberts re clearing the tree.

23.7 DOG POSTERS - to try to contact the Clerk PCSO Dan Owen again .

23.8 DRAFT PROTOCOL FOR DEVOLVEMENT OF SERVICES CONWY - Conwy translation arrived and asked everyone to send any comments to the Clerk .

23.9 FLOWERS BY GARDENING CLUB - the Club was keen to take responsibility as a result of Conwy Council ceasing to fill tubs and are eager to know about the amount of funds available from Bro Cernyw Fund . RESOLVED that £250 could be contributed towards the tubs and baskets to the villages but the club is to fill an application form for the grant.

23.10 HIGHWAY MATTERS - the roads had not been swept and it was felt that the Council create more costs to themselves by not sweeping often enough .

23:11 LLANGERNYW TOILET - received a letter from Mr Steve Teale , Conwy Council saying he is engaged in preparing papers for the meeting of the Cabinet to transfer the toilets and had received a list of local contractors who were interested in tendering for the work. He would let us know about the developments . Councillor Dilwyn Roberts talked to officials St Digain but he wanted a site meeting with the Rector soon . Ifor Edwards proposed to attend the meeting also.

23.12 PLANNING ISSUE - SP MANWEB PLC - Connecting Wind Farms North Wales Project - statutory consultation. RESOLVED to make no comment .

23.13 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED to donate £ 30 to Eisteddfod Dyffryn Conwy.

23:14 BRO CERNYW FUND
23.14.1 An application was received by Cylch Meithrin BroCernyw . RESOLVED to contribute £ 750 but to declare that we are concerned about the situation and can not contribute as much in the long run . We were pleased that Cerys Thomas had a meeting with the group .
23.14.2 An application was received by Bwrlwm Bro and RESOLVED to contribute £ 500 towards the Llangernyw sports project during the summer .

23.15 CLERK SALARY - RESOLVED to discuss at the next meeting .

23.16 WEB COURSE - Arfon Parry offers a course for the clerks to use its websites . Ellen Edwards reminded that 75 % of funding is available for courses in rural Conwy.

23:17 ONE VOICE WALES AREA COMMITTEE - there was a report of a meeting by Tecwyn Evans. Gwyneth Millington of Citizens Advice Bureaux attended. The organization was started in 1939 in Colwyn Bay . Advice on various subjects including debt and benefits - 36 volunteers are working and use lots of the internet now .

23:18 ONE VOICE WALES COURSES - encouragement for members to attend One Voice courses.

23.19  THE PILGRIM'S TRAIL - Emlyn Williams and the Clerk met with Suriyah Evans in Gwytherin . We hope to provide information about the tour on the website and in the community council newsletter l . Local history will need to be placed on the information boards and suggested the names of Einir Williams and Lis Vaughan as local artists .

23.19 PLANNING GUIDE - the Clerk to send the information again and information about Affordable Housing on email to members. Diane Roberts declared an interest in the document Affordable housing .

23.20 OTHER MATTERS
23.20.1 A piece of wall had fallen into the river near Lion Inn , Gwytherin .
23.20.2 Petryal sign still not repaired - facing the wrong way .
23.20.3 Water has come down the Llwyn Saint hill and the fence and the Pentrefoelas sign is in the field .
23.20.4 Pot -hole near Tyddyn Deicws - car could go into it.
23.20.5 Radio reception is hopeless in the area but Classic FM is heared very clearly . Need to contact Darren Millar AM and David Jones MP again .
23.20.6 Overgrown ash trees growing in the middle Gwytherin and reaching the electric or telephone wires , and cracking wall.  Also there is a disease on them.

BILLS
Arfon Parry (web hosting ) £ 23.76
Welsh Water £ 17.09
Gwytherin Community Centre £ 30.00

The meeting came to an end at 10 o'clock.

MINUTES APPROVED  *Elen H Edwards………  Dyddiad  30/4/14…………..*